

Arolygiadau â Phwyslais Penodol o Ganolfannau Brechu Torfol (Dirybudd)

Canolfannau y Sblot a Holm
View, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro

Dyddiad arolygu: 01 – 02 Mawrth
2021

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mai 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiadau â phwyslais penodol	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu canolfannau brechu torfol	22
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	33

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiadau â phwyslais penodol o ddwy ganolfan brechu torfol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 01 Mawrth 2021 a 02 Mawrth 2021. Ymwelwyd â'r canolfannau canlynol:

- Canolfan Brechu Torfol y Sblot, Canolfan Therapi Caerdydd a'r Fro, Heol y Sblot, Caerdydd, CF24 2BZ
- Canolfan Brechu Torfol Holm View, Canolfan Hamdden Holm, Skomer Road, Y Barri, CF62 9DA.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiadau â phwyslais penodol yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac un adolygwr cymheiriaid clinigol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau roedd y gwasanaethau yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau â phwyslais penodol o ganolfannau brechu torfol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiadau â phwyslais penodol

Roedd yn amlwg bod y bwrdd iechyd wedi gweithio'n galed ac yn gyflym i ddarparu lleoliadau dros dro â digon o gapasiti i gyflawni'r rhaglen frechu.

Er bod y safleoedd y gwnaethom ymweld â nhw yn unigryw, cawsom sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i'w galluogi i weithredu fel canolfannau brechu torfol.

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth cadarnhaol iawn ar eu profiadau yn y canolfannau.

Fodd bynnag, bu'n rhaid i ni ofyn am rai camau unioni brys yn ystod ein hymweliadau, a gwelsom fod lle i wella'r trefniadau llywodraethu sy'n ategu'r broses o barhau i gyflawni'r rhaglen yn ddiogel.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y gwirfoddolwyr a'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a pharchus.
- Roedd modd cadw digon o bellter cymdeithasol yn y ddwy ganolfan, ac roedd y llif o gleifion yn effeithlon ac yn amserol yn y canolfannau.
- Roedd y cleifion yn cael eu hasesu i weld a oedd ganddynt symptomau COVID-19 cyn caniatáu iddynt ddod i mewn i'r canolfannau
- Teimlai'r brechwyr heb eu cofrestru y gwnaethom siarad â nhw fod eu goruchwylydd cofrestredig yno bob amser i drafod unrhyw bryderon a oedd ganddynt pan fo angen.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r arferion sydd ar waith ar gyfer storio ac olrhain brechlyn ailansoddedig er mwyn cynnal arferion diogel
- Adolygu a chryfhau ymwybyddiaeth y staff o'r gweithdrefnau gwacáu yn achos argyfwng

- Sicrhau bod y cleifion yn cael asesiad clinigol priodol a chyson cyn iddynt gael eu brechu
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi llofnodi i gydnabod y Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion
- Atgoffa'r staff i gadw at bolisi gwisg y bwrdd iechyd
- Adolygu'r gweithgareddau archwilio i'w cynnal i gadw'r cleifion yn ddiogel
- Adolygu'r weithdrefn safonol ar gyfer y ddwy ganolfan er mwyn sicrhau ei bod yn disgrifio'r prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer y ddwy ganolfan yn gywir
- Sicrhau bod brechwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol er mwyn bod yn gymwys i roi brechiadau i gleifion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae'r bwrdd iechyd wedi gweithio'n gyflym i gynllunio a chyflawni rhaglen brechu torfol yn y rhanbarth i'r grwpiau blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Nodwyd nifer o fodelau cyflawni ar gyfer rhoi brechiadau, gan gynnwys timau symudol yn y gymuned, defnyddio meddygfeydd teulu a throi adeiladau awdurdodau iechyd a lleol yn ganolfannau brechu torfol.

Sefydlwyd pum canolfan brechu torfol i ddechrau, ac maent wedi bod ar waith ers mis Rhagfyr 2020. Roedd y rhain yn cynnwys un o'r canolfannau y gwnaethom ymweld â hi, sef Canolfan Brechu Torfol y Sblot yng Nghaerdydd. Tua adeg yr arolygiadau â phwyslais penodol, roedd y pum canolfan wedi rhoi tua 150,000 o frechiadau. Ar adeg ein harolygiadau â phwyslais penodol, roedd canolfan y Sblot yn rhoi'r ail ddosau o frechlyn Pfizer BioNTech i gleifion, ac roedd Holm View yn rhoi brechlyn Oxford Astra Zeneca.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom wahodd defnyddwyr y gwasanaeth i gwblhau arolwg ar eu profiadau, er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau wrth wraidd ein dull arolygu. Gwnaethom edrych i weld a oedd cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac yn cael gwybodaeth amserol a hygyrch.

Gwnaethom ofyn i gleifion a oedd wedi cael eu brechiadau yn y canolfannau brechu torfol gwblhau arolwg ar-lein am eu profiadau. Roedd posteri yn y canolfannau ac ar sianeli cyfryngau cymdeithasol AGIC yn hyrwyddo'r arolwg. Cwblhaodd cyfanswm o 253 o gleifion yr arolwg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

At ei gilydd, roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol iawn, a nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod wedi cael profiad rhagorol. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym fod y bwrdd iechyd wedi cyfathrebu'n glir â nhw cyn yr apwyntiad.

Roedd pob claf o'r farn ei fod wedi gallu cynnal ei breifatrwydd a'i urddas yn ystod ei apwyntiad. Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion wrthym fod mesurau atal a rheoli heintiau wedi'u dilyn yn dda lle y bo'n briodol, er enghraifft cadw pellter cymdeithasol a mesurau hylendid dwylo priodol. At hyn, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod y canolfannau'n lân ac yn daclus.

Gofal ag urddas

Gwelsom y gwirfoddolwyr a'r staff clinigol yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar a pharchus bob amser yn ystod y ddau arolygiad â phwyslais penodol. Yn y ddwy ganolfan, roedd y cleifion yn eistedd mewn ardal aros fawr cyn i'r staff eu galw i gael eu brechu.

Gwnaethom ystyried sut y byddai amgylchedd y ddwy ganolfan yn galluogi cleifion sy'n cael eu brechu i gael gofal preifat ag urddas. Roedd y ddwy ganolfan yn galluogi preifatrwydd ac urddas y cleifion i gael eu cynnal, drwy ddefnyddio sgriniau a sicrhau bod digon o le rhwng y cleifion.

Gwybodaeth i Gleifion

Gwelsom fod y staff yn rhoi gwybod i'r cleifion beth i'w wneud ar bob cam o'u taith drwy'r canolfannau, a oedd yn golygu bod y llif cleifion yn effeithlon ac yn amserol drwy'r dydd.

Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg. Gwelsom fod y cleifion yn cael cerdyn brechu a oedd yn dangos eu henw, rhif y swp a dyddiad eu brechiadau. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael taflenni gwybodaeth ar ôl eu brechiad cyntaf a oedd yn rhoi gwybod iddynt am sgil-ffeithiau posibl a phryd i ofyn am help pe bai angen. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael, lle y bo angen, i gleifion nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Os nad yw'r claf yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn newis iaith y claf os gofynnir amdani.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae'r canolfannau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yn amlwg bod llawer iawn o waith cynllunio a pharatoi wedi'i wneud i drawsnewid y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw, gan sicrhau eu bod yn addas i'r staff a'r cleifion. Gwelsom fod y canolfannau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, eu bod yn lân, a'u bod wedi'u goleuo a'u hawyru'n briodol. Roeddent hefyd yn drefnus iawn, gyda chyflenwad da o nwyddau traul meddygol.

Gwnaethom edrych ar y mesurau diogelwch a oedd ar waith yn y ddwy ganolfan, ac ar sawl achlysur, gwelsom nad oedd staff wrth ddrws allanfa canolfan y Sblot ac nad oedd wedi'i gloi. Gwnaethom hefyd nodi pan oedd y drws allanfa'n cael ei oruchwyllo, nad oedd y swyddog diogelwch mewn man a oedd yn sicrhau bod y drws o fewn ei olwg bob amser. Roedd hyn yn peri risg i ddiogelwch y staff, y cleifion a'r cyflenwadau o'r brechlyn.

Gwelsom hefyd fod drysau tân mewnol yng nghanolfan y Sblot yn cael eu cadw ar agor gan flocyn. Nid oedd hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau diogelwch tân arferol, sy'n nodi mai dim ond drwy ddefnyddio dyfais ddal wedi'i dylunio a'i gosod yn benodol sy'n rhyddhau'n awtomatig i gau'r drysau pe bai tân y gellir cadw drysau ar agor. Gwnaethom archwilio'r asesiad risg tân a gwnaethom hefyd nodi nad oedd y wybodaeth a roddwyd yn cyd-fynd â'n canfyddiadau.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer gwacáu pe bai argyfwng yn y ddwy ganolfan. Er y gwnaethom nodi bod cynllun gwacáu ar waith yn y ddwy ganolfan, nid oedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi'r cynllun i gadarnhau ei fod wedi darllen a deall ei gynnwys. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd polisi gwacáu ffurfiol ar waith. Yn dilyn y trafodaethau â'r staff, ni chawsom sicrwydd bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gwacáu briodol i'w dilyn pe bai argyfwng.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r materion uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. O ganlyniad i hyn, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwnaethom nodi bod unrhyw hylifau neu gynhyrchion sy'n niweidiol i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn cadw'r cleifion yn ddiogel.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom y staff wrth fynedfa'r canolfannau yn asesu'r cleifion am symptomau COVID-19 cyn iddynt gael mynd i mewn, a nodwyd bod hyn yn arfer da. Cafodd y cleifion eu cadw'n ddiogel hefyd drwy gamau i hyrwyddo pellter cymdeithasol a'r gofyniad i wisgo masgiau neu orchuddion wyneb yn y canolfannau, oni bai bod y cleifion wedi'u heithrio rhag gwneud hynny.

Roedd sawl man golchi a diheintio dwylo ym mhob rhan o'r canolfannau a gwelsom y staff yn defnyddio'r cyfleusterau hyn rhwng cleifion. Gwelsom hefyd fod cyfarpar diogelu personol, fel ffedogau, yn cael eu newid ar ôl pob pedwar claf. Gwelsom fod canllawiau priodol ar fesurau atal a rheoli heintiau wedi'u harddangos ar gyfer y staff ar y ddau safle. Gwelsom fod y staff yn cyrraedd y safonau o fod yn Noeth o dan y Penelin¹, ond gwelsom fod rhai aelodau o'r staff yn gwisgo gemwaith, ac nid oedd hyn unol â pholisi gwisg y bwrdd iechyd.

Gwnaethom hefyd ystyried y mesurau glanhau a oedd ar waith yn y canolfannau a dywedwyd wrthym fod glanhawr ar y safle drwy'r dydd. Roedd yn gyfrifol am lanhau'r cyfleusterau'n gyffredinol, a hefyd lanhau a diheintio'r mannau cyffwrdd yn rheolaidd. Hefyd, gwelsom y staff yn mynd ati i lanhau ciwbiclau a chadeiriau brechu, gan wneud hynny i safon uchel. Roedd digon o gynhyrchion glanhau ar gael i gadw pob ardal yn lân, a nodwyd bod y gwaith o wahanu a gwaredu gwastraff yn cael ei wneud yn unol â chanllawiau'r bwrdd iechyd.

Dywedwyd wrthym nad oedd gweithgareddau archwilio'n cael eu cynnal yn y canolfannau. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau clinigol fel atal a rheoli heintiau a hylendid dwylo, ac archwiliadau amgylcheddol. Mae'r rhain yn rhan hanfodol o'r trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau gofynnol a chadw'r cleifion yn ddiogel.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r materion uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

¹ Yr arfer gorau yw bod staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gofal y cleifion yn noeth o dan y penelin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llewys byr, peidio â gwisgo gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), watshis, paent ewinedd nac ewinedd ffug.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, bod modd i arweinwyr clinigol roi cefnogaeth ar bob sifft a bod arweinydd atal a rheoli heintiau'r bwrdd iechyd ar gael pe bai angen. Roedd hefyd yn galonogol clywed bod pob aelod o'r staff yn y canolfannau wedi cael eu brechlyn COVID-19, a phetai'r staff yn profi unrhyw symptomau, byddent yn cael eu hatgyfeirio am brawf ar unwaith. Dywedwyd wrthym fod profion llif unffordd wrthi'n cael eu cyflwyno, ond nad oeddent wedi cael eu rhoi ar waith yn y canolfannau y gwnaethom eu harolygu eto.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Caiff y staff eu hatgoffa o'r polisi gwisg a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy archwiliadau rheolaidd
- Dylid ystyried cyflwyno profion llif unffordd pellach i'r staff.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom ystyried a allai'r brechlyn gael ei roi i'r cleifion yn ddiogel ac mewn ffordd amserol. Yn y ddwy ganolfan, gwelsom fod cyflenwadau digonol o frechlynnau Pfizer-BioNTech ac Oxford Astra Zeneca i frechu pob claf ag apwyntiad. Cawsom gopi o bolisi gweithredu safonol Rheoli Meddyginiaethau Brechlyn COVID-19 a'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion ar gyfer rhoi'r brechlynnau. Roedd y ddwy ddogfen yn rhoi'r canllawiau a'r fframwaith i sicrhau bod y bwrdd iechyd a'r staff sy'n rhoi'r brechlyn yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r defnydd o'r brechlynnau. Hefyd, roedd y dogfennau hyn wedi'u hategu gan amrywiaeth o weithdrefnau safonol eraill yn ymwneud â dosbarthu, storio, paratoi a rhoi'r brechlynnau yn y canolfannau. Gwnaethom nodi nad oedd rhai aelodau o'r staff a oedd yn rhoi'r brechlynnau wedi llofnodi'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion, a hynny yn y ddwy ganolfan. Heb weld llofnodion i ddangos bod y staff wedi edrych dros y Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion, ni allem fod yn sicr bod yr arferion gorau diweddaraf yn cael eu dilyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn darllen ac yn llofnodi'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion sy'n gysylltiedig â rhoi'r brechlyn, er mwyn cynnal arferion diogel ac effeithiol bob amser.

Gwnaethom adolygu'r broses o baratoi'r brechlynnau yn y ddwy ganolfan. Gwnaethom nodi bod hyn yn digwydd mewn ystafell fferyllfa ar wahân, a bod y brechlynnau'n cael eu hailansoddi² a'r chwistrellau'n cael eu gosod mewn blychau glas. Nid oedd y blychau'n cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei holrhain fel rhif y swp neu'r dyddiad dirwyn i ben. Yna, roedd y staff yn cludo'r blychau i fwrdd canolog yn yr ardal frechu.

Felly, ni chawsom sicrwydd yn ystod ein hymweliadau fod y broses sydd ar waith ym mhob canolfan yn unol â'r Protocol Cenedlaethol ar gyfer rhoi brechlynnau COVID-19 yn ddiogel, a hynny oherwydd diffyg gwirio manylion y brechlyn yn briodol fel rhif y swp a'r dyddiad dirwyn i ben wrth frechu. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwnaethom hefyd ystyried a oedd cyfleusterau digonol yn y canolfannau i storio a rheoli'r brechlynnau'n briodol. Yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol, gwelsom fod gan bob canolfan ystafelloedd storio y gellid eu cloi ac oergelloedd y gellid eu cloi. Fodd bynnag, yng nghanolfan y Sblot, gwelsom fod bag o ffiolau gwastraff wedi'i adael y tu allan i un o'r oergelloedd wedi'u cloi. Cafodd hyn ei uwchgysgu ar unwaith at yr Arweinydd Brechu, a dywedwyd wrthym eu bod wedi'u difetha am resymau dilys ac wedi'u cofnodi'n briodol, ond nid oedd y staff yn siŵr pam na chafwyd gwared arnynt yn syth. Cafodd y mater ei unioni ar unwaith ac mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Gwelsom hefyd fod adrenalin ar gael ym mhob ciwbicl brechu, a dywedodd pob aelod o'r staff cofrestredig y gwnaethom siarad â nhw ei fod wedi cael ei hyfforddi'n briodol i roi adrenalin² pe bai angen.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod cyfarpar dadebru brys ar gael ym mhob canolfan, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)³. Roedd y diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) a'r holl gyfarpar eraill yn cael eu harchwilio'n wythnosol er mwyn sicrhau

² Meddyginiaeth a ddefnyddir i drin sioc ddifrifol a achosir gan adwaith alergaidd difrifol neu lewygu yw adrenalin.

³ <https://www.resus.org.uk/>

eu bod yn ddiogel i'w defnyddio, a bod y nwyddau traul o fewn y dyddiadau diogel i'w defnyddio pe bai argyfwng.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer gofalu am gleifion pe bai argyfwng fel adwaith anaffylactig⁴. Yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol, dywedodd y staff wrthym pe bai angen cymorth y byddai gweiddi am help yn effeithiol oherwydd natur y ganolfan, a'r ffordd y mae'r ardaloedd agored wedi'u cynllunio. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr arweinydd tîm yn goruchwyllo'r holl giwbiclau, a gwelsom hyn yn digwydd yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol. Roedd prosesau ôl-frechu priodol ar waith a phe bai argyfwng, byddai'r claf yn cael gofal yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd a chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).

Gwnaethom nodi bod anghysondebau yn yr asesiadau clinigol⁵ cyn brechu. Gwnaethom nodi bod y brechwyr cofrestredig yn gwneud asesiadau cynhwysfawr, ond nid oedd hyn yn wir am y brechwyr heb eu cofrestru nad oeddent bob amser yn ymhelaethu ar gwestiynau pan fo angen. Cafodd hyn ei uwchgyfeirio at arweinydd y tîm yn ystod yr arolygiadau â phwyslais penodol a chawsom sicrwydd y byddai'r goruchwilydd clinigol yn sicrhau bod cwestiynu priodol yn digwydd drwy hyfforddiant a goruchwyliaeth barhaus.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod goruchwyliaeth, hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn cael eu rhoi i'r brechwyr heb eu cofrestru er mwyn sicrhau bod y claf yn ddiogel a hyrwyddo datblygiad parhaus eu rôl.

⁴ Adwaith alergaidd difrifol a all beryglu bywyd yw adwaith anaffylactig. Gall ddigwydd o fewn eiliadau neu funudau o ddod i gyswllt â meddyginiaeth.

⁵ Asesiad clinigol wrth frechu yw casglu gwybodaeth a dod i gasgliadau drwy ddefnyddio dulliau arsylwi a chyfweld gyda'r claf i benderfynu a yw'n addas i gael y brechlyn.

Cadw cofnodion

Drwy drafodaethau â'r staff a'r uwch-reolwyr, ynghyd ag arsylwadau gan yr adolygwr cymheiriaid clinigol, gwnaethom nodi bod cofnodion yn cael eu cynnal yn electronig ar System Imiwneiddio Cymru yn y ddwy ganolfan. Mae'r system, a ddatblygwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, yn ei gwneud yn bosibl i'r bwrdd iechyd gael gwybodaeth am nifer y brechiadau a roddwyd er mwyn olrhain cynnydd a monitro faint o gleifion sy'n manteisio arni ar draws rhaglen frechu'r bwrdd iechyd. Gwelsom ryngweithio priodol rhwng y staff a'r cleifion, gan sicrhau cydsyniad llafar cyn rhoi'r brechlyn.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r canolfannau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Cyn i ni gynnal yr elfen o'n harolygiadau ar y safle, gwnaethom gais am dystiolaeth a gwybodaeth gan y bwrdd iechyd mewn cysylltiad â threfniadau llywodraethu'r rhaglen frechu. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod strwythurau ar waith i oruchwyllo'r ffordd y caiff rhaglen frechu COVID-19 ei chyflawni gan y bwrdd iechyd. Wrth siarad â'r staff yn ystod yr arolygiadau â phwyslais penodol, gwnaethant hefyd gadarnhau eu bod yn ymwybodol o strwythur arwain y bwrdd iechyd. Hefyd, cawsom ddogfennau fel data hyfforddiant, dogfennau'r bwrdd rhaglen a thystiolaeth yn ymwneud â rheoli risgiau a oedd yn cynnig trosolwg o'r gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig cyn yr arolygiadau â phwyslais penodol.

Cawsom gopi o'r gweithdrefnau safonol a grëwyd ar gyfer y canolfannau brechu torfol a oedd wedi bod ar waith ers mis Rhagfyr 2020. Roeddent yn nodi'r trefniadau lleol a oedd ar waith yn y canolfannau er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y broses frechu yn cael ei chyflawni'n ddiogel. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol, ni allai'r staff a oedd yn gweithio yn y naill ganolfan na'r llall ddarparu copi o'r gweithdrefnau safonol ar gyfer eu canolfan. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd y mesurau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn y canolfannau'n adlewyrchu'r rhai a amlinellwyd yn y gweithdrefnau safonol. Gwnaethom drafod hyn ag uwch-aelodau o'r staff, a gadarnhaodd nad oedd y gweithdrefnau safonol yn gywir. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithdrefnau safonol ar gyfer y ddwy ganolfan brechu torfol a sicrhau eu bod yn disgrifio'r prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer y ddwy ganolfan yn gywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Darparu sicrwydd bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau safonol perthnasol ar gyfer y canolfannau y maent yn gweithio ynddynt, a'u bod wedi darllen a deall y cynnwys.
- Adolygu'r gweithdrefnau safonol ar gyfer y ddwy ganolfan brechu torfol a sicrhau eu bod yn disgrifio'n gywir y prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer y ddwy ganolfan.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd yn amlwg y byddai'r broses barhaus o nodi staff a phryd y maent ar gael, a mynediad hirdymor at leoliadau addas, yn heriau allweddol a wynebwr gan y bwrdd iechyd wrth gyflawni'r rhaglen frechu. Gwelsom fod nifer priodol o wirfoddolwyr, gweinyddwyr a staff clinigol ar y safle yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol, er mwyn rhoi'r brechiadau a drefnwyd ar gyfer y diwrnodau hynny yn ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod y gwaith o drefnu'r rotas staff yn cael ei reoli'n ganolog ar hyn o bryd, a dywedodd y staff wrthym fod hyn i'w weld yn gweithio'n effeithiol.

Dywedwyd wrthym fod staff clinigol cofrestredig yn gyfrifol am oruchwyllo hyd at bump o frechwyr heb eu cofrestru ar y tro. Yn y ddwy ganolfan, roedd manylion clir ar fyrddau gwybodaeth i ddangos pa unigolyn cofrestredig oedd yn gyfrifol am yr unigolion heb eu cofrestru yn ystod eu horiau gwaith, ac ystyriwyd bod hyn yn arfer da.

Er nad oedd y staff clinigol cofrestredig yn darparu goruchwyliaeth un i un, nid oedd y brechwyr heb eu cofrestru y gwnaethom siarad â nhw yn y ddwy ganolfan yn ystyried bod hyn yn broblem, ac roeddent yn teimlo bod eu goruchwyllydd ar gael bob amser i drafod unrhyw bryderon a oedd ganddynt pan fo angen.

Dywedwyd wrthym fod 'sgrymiau diogelwch' byr yn cael eu cynnal bob bore a phrynhawn i'r uwch staff clinigol, er mwyn cyfleu pwyntiau allweddol, materion a champau gweithredu i'r staff. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir rhoi'r diweddariadau hyn i'r staff sy'n cyrraedd i weithio sifftiau hwyrach i'r un graddau, fel bod ganddynt yr un wybodaeth â'r staff eraill.

Rhaid i'r brechwyr newydd fodloni'r gofynion hyfforddiant perthnasol a chael eu hasesu'n gymwys gan oruchwylwyr penodol cyn gallu brechu heb oruchwyliaeth. Rhaid i staff sydd eisoes â sgiliau brechu gwblhau'r un hyfforddiant gofynnol ond gallant ddefnyddio adnodd asesu cymhwysedd brechwyr COVID-19 i hunanasesu a nodi unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff clinigol yn cael pecyn sefydlu cyn dechrau yn eu rôl.

Yn ystod yr arolygiadau â phwyslais penodol, gofynnwyd i'r bwrdd iechyd ddosbarthu holiadur staff i bob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw. Daeth 51 o holiaduron wedi'u cwblhau i

law, ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol iawn. Dywedodd pob aelod ond un o'r staff ei fod wedi cael hyfforddiant digonol i gyflawni ei rôl. Fodd bynnag, dywedodd tua phump y cant o'r staff clinigol nad oeddent wedi cwblhau rhywfaint o'r hyfforddiant gofynnol. At hynny, dywedodd tua un rhan o bump o'r staff na chafodd eu cymwyseddau eu cymeradwyo cyn iddynt ddechrau yn eu rôl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gofynnol a phob cymhwysedd cyn iddo ddechrau yn ei rôl. Dylai tystiolaeth o hyn gael ei chofnodi a bod ar gael yn hawdd.

Gwelsom gyfleusterau newid ar gyfer y staff yn y ddwy ganolfan, a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu hannog i ddilyn y polisi gwisg wrth gyrraedd y safle, a hefyd wrth adael ar ddiwedd y sifft, ond fel y nodwyd yn flaenorol, gwelsom nad oedd hyn yn digwydd am fod rhai o'r staff yn gwisgo gemwaith. Gwelsom hefyd ardaloedd egwyl a lluniaeth addas lle y gallai'r staff gymryd egwyliau yn ystod eu sifft. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr holiadur staff fod llesiant a diogelwch yn y timau yn gadarnhaol iawn, a bod y bwrdd iechyd yn blaenoriaethu iechyd y staff.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol lle mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiadau â phwyslais penodol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws canolfannau brechu eraill yn y bwrdd iechyd. Mae hyn yn cynnwys y canfyddiadau yn atodiadau A, B ac C.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu canolfannau brechu torfol

Byddwn fel arfer yn rhoi rhywfaint o rybudd o'n harolygon â phwyslais penodol o ganolfannau brechu torfol. Mae hyn yn golygu y byddwn yn dweud wrth y bwrdd iechyd y byddwn yn ymweld â nifer o ganolfannau yn ystod cyfnod penodol o amser, ond ni fyddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth. Yna gall y bwrdd iechyd baratoi rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen arnom ymlaen llaw. Mae hyn yn golygu y gallwn dreulio llai o amser ar y safle, ac felly bydd yr arolygiad â phwyslais penodol yn amharu cyn lleied â phosibl ar y cleifion a'r staff.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad â phwyslais penodol, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae'r canolfannau'n cyrraedd rhannau perthnasol o [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn â phwyslais penodol yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn canolfannau brechu torfol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod ffiolau gwastraff o frechlynnau wedi cael eu storio ar ben oergell wedi'i gloi yn yr ystafell fferyllfa yng Nghanolfan Brechu Torfol y Sblot.	Gallai'r ffiolau gwastraff fod wedi cael eu defnyddio ar gam gan aelodau o'r staff nad oeddent yn ymwybodol o bosibl o'r rheswm dros eu storio mewn man amhriodol, gan olygu bod risg y gallai'r ffiolau fod wedi cael eu rhoi yn amhriodol ac yn anniogel.	Cafodd hyn ei uwchgyfeirio at arweinydd y ganolfan brechu torfol ar unwaith yn ystod yr arolygiad â phwyslais penodol.	Cafwyd gwared ar y ffiolau gwastraff ar unwaith a dywedodd yr arweinydd y byddai'r staff yn cael eu hatgoffa am y weithdrefn briodol i'w dilyn yn y dyfodol.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Canolfannau: Canolfannau Brechu Torfol y Sblot a Holm View

Dyddiad arolygu: 01 – 02 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhoi gofal diogel ac effeithiol				
Gwnaethom adolygu'r broses o baratoi'r brechlynnau yn y ddwy ganolfan, a gwelsom ei bod yn digwydd mewn ystafelloedd fferyllfa ar wahân. Yna, gwelsom fod y chwistrellau wedi'u llenwi ymlaen llaw yn cael eu cludo mewn blychau glas i fwrdd canolog gan y staff. Gwelsom nad oedd labeli ar y chwistrellau ym mhob blwch ac, felly, nad oedd arnynt y manylion cysylltiedig fel y brechlyn, y	Safonau lechyd a Gofal 2.1 / 2.6 / 3.1 / 3.2 / 3.5 / 5.1	Y sefyllfa bresennol Roedd paratoi brechlynnau a'u rhoi at ei gilydd mewn ystafell fferyllfa ar wahân fel rhan o fodel gweithredu'r canolfannau brechu torfol yn benderfyniad a drafodwyd ac y cytunwyd arno gan grŵp gweithredol y rhaglen, a hynny'n seiliedig ar leihau'r risg o fesur cyfaint critigol gan ddefnyddio lleoliad tawelach.	D Baker, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Fferyllol Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gwanedydd, amser ailansoddi, rhif y swp na'r dyddiad dirwyn i ben. Yn ogystal, gwelsom fod y chwistrellau'n cael eu gadael ar y bwrdd yn ardal y cyntedd am gyfnodau amrywiol o amser, yn dibynnu ar ba mor brysur oedd y ganolfan ar adegau gwahanol o'r dydd. Cyngor cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru yw y byddai'n ddelfrydol defnyddio'r brechlyn cyn gynted â phosibl, neu cyn pen 30 munud yn ddelfrydol. Fodd bynnag, nid oes yr un ffordd o gadarnhau am ba hyd y bu'r brechlynnau ar y bwrdd. Yn ogystal, ar adeg ein harolygiadau, gwelsom nad oedd y chwistrellau bob amser yn cael eu goruchwyllo, a oedd yn peri risg bosibl o ran nifer yr ymwelwyr a welwyd yn y ganolfan a'r cleifion a oedd yn eistedd gerllaw. Yna, roedd nyrs yn mynd â'r chwistrellau i'r podiau brechu ac roedd y brechwyr yn rhoi'r brechlyn. Ni welsom unrhyw wiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau o'r brechlyn ar yr adeg hon.		Caiff holl fanylion y brechlyn a rhifau'r sypiau eu cofnodi ar System Imiwneiddio Cymru ar adeg ailansoddi'r brechlyn yn yr Ystafell Fferyllfa Dim ond staff y Fferyllfa neu gofrestryddion wedi'u hyfforddi sy'n rhoi'r brechlynnau at ei gilydd yn y canolfannau brechu torfol. Gwneir hyn yn unol â'r canllawiau cenedlaethol a'r gweithdrefnau safonol a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt yn lleol, sy'n nodi bod modd i aelodau gwahanol o'r staff ymgymryd â rhannau o'r llwybr. Cafodd hyn ei egluro i'r arolygwyr ar ddiwrnod yr arolygiad ac, yn ei hadborth terfynol, cadarnhaodd AGIC y byddai'n gofyn am eglurhad pellach ynglŷn â hyn ar lefel Genedlaethol/y DU.	D Baker, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Fferyllol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Cwblhawyd Bellach ar waith

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nodwyd nad oedd y broses hon yn unol â'r Protocol Cenedlaethol am na chafodd manylion y brechlyn, rhif y swp na'r dyddiad dirwyn i ben eu gwirio'n briodol. Mae hyn hefyd yn groes i'r cyngor a roddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i AGIC y dylai'r brechwyr wirio'r manylion cyn brechu. Camau Gweithredu i'w Cymryd: Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu'r broses hon yn unol â'r Protocol Cenedlaethol a rhoi sicrwydd bod y broses wedi'i diwygio a'i rhoi ar waith ar gyfer pob canolfan brechu torfol ar hyd a lled y bwrdd iechyd, yn unol â gofynion y protocol o ran pryd y dylai'r brechlyn gael ei roi gan rywun ar wahân i'r person sy'n ei baratoi.		Ni chaiff unrhyw feddyginiaeth arall sy'n cynnwys gwneuthurion gwahanol o frechlynnau Covid eu paratoi ar safle canolfan brechu torfol ar yr un pryd, felly nid oes risg o ddefnyddio'r cyffur anghywir. Ers arolygiad AGIC, mae'r llwybr wedi'i adolygu ac mae cardiau amser wedi'u cyflwyno gan arweinwyr fferyllfa pob canolfan brechu torfol er mwyn sicrhau bod modd nodi'r amser o baratoi'r brechlyn i'w ddefnyddio ac y caiff brechlynnau eu rhoi cyn gynted â phosibl yn nhrefn amser. Pwrpas hyn yw sicrhau na chaiff y brechlyn ei adael am gyfnod hwy na 15 munud o'i baratoi i'w chwistrellu. Bydd archwiliadau a gwiriadau diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal o'r defnydd o'r cerdyn Amser.		Yn ddyddiol

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae gweithdrefn safonol y brechlyn yng Nghaerdydd a'r Fro yn unol â'r Protocol Cenedlaethol a chaiff manylion y brechlyn, h.y. y brand, rhif y swp a'r dyddiad dirwyn i ben, eu rhannu â'r holl frechwyr drwy roi hysbysiad ym mhob pod ar ddechrau pob sesiwn		
Dywedwyd wrthym nad oedd gweithgareddau archwilio yn cael eu cynnal yn yr un o'r ddau safle a arolygwyd gennym. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau clinigol fel atal a rheoli heintiau a hylendid dwylo, ac archwiliadau amgylcheddol. Mae'r rhain yn rhan hanfodol o'r trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau gofynnol a chadw'r cleifion yn ddiogel. Camau Gweithredu i'w Cymryd:	Safon Iechyd a Gofal 2.1 / 2.4 / 3.1 / 3.3 / 3.5	Mae amserlen o Archwiliadau wedi'i rhoi ar waith ar unwaith er mwyn gwneud y canlynol yn wythnosol • Atal a Rheoli Heintiau • Yr Amgylchedd • Troli Adfywio • Profiad y Dinesydd	Uwch-nyrsys y canolfannau brechu torfol	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhoi rhaglen o archwiliadau ar waith ym mhob canolfan brechu torfol yn y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn briodol, a bod gofal iechyd yn cael ei ddarparu yn unol â safonau a chanllawiau arfer orau.		Bydd yr archwiliad amgylcheddol yn nodi'r gofynion rheoliadau tân.		
Gwelsom ddrysau tân mewnol yng nghanolfan y Sblot yn cael eu cadw ar agor. Nid oedd hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau diogelwch tân arferol, sy'n nodi mai dim ond drwy ddefnyddio dyfais ddal wedi'i dylunio a'i gosod yn benodol sy'n rhyddhau'n awtomatig i gau'r drysau pe bai tân y gellir cadw drysau ar agor. Wrth wirio'r asesiad risg tân, nodwyd bod yr adran 'Are fire doors wedged open' wedi'i nodi â 'No'. Camau Gweithredu i'w Cymryd: Rhoi tystiolaeth i AGIC bod adolygiad a diweddariad uniongyrchol o asesiadau risg tân wedi'u cwblhau ar gyfer pob canolfan brechu torfol yn y bwrdd iechyd er mwyn	Safon Iechyd a Gofal 2.1	Cynhaliwyd archwiliadau diogelwch tân yng Nghanolfan Brechu Torfol y Sblot gan Swyddog Tân Bwrdd Iechyd y Brifysgol ym mis Hydref 2020 a mis Ionawr 2021. Caiff drysau tân mewnol eu cadw ar agor i leihau'r risg o groeshalogi ar y safle o gofio'r traffig sy'n mynd drwy'r adeilad. Roedd Swyddog Tân Bwrdd Iechyd y Brifysgol wedi cytuno i hyn lle y bo'n ddiogel, ar yr amod bod gweithdrefn ar waith i gau'r drysau ar ddiwedd y dydd neu pe bai tân, ac mae hyn wedi'i gynnwys ym mhroses weithredu'r canolfannau.	Swyddog Tân Bwrdd Iechyd y Brifysgol	Ionawr 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
sicrhau bod pob person yn yr adeilad yn cael ei ddiogelu ac y dilynrir y canllawiau cenedlaethol.		Mae hysbysiadau asesiad risg tân a gwacáu ar gael ar bob safle. Mae'r asesiad risg cyfredol wedi cael ei adolygu a bydd rhagor o sesiynau ymwybyddiaeth tân yn cael eu cyflwyno a'u cynnal ar bob safle er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall ei gyfrifoldeb personol pe bai angen iddo wacáu'r safle yn achos tân. Sicrhau bod pob aelod o'r staff ar y sifft yn ymwybodol o leoliad yr allanfeydd tân a bod yr hysbysiadau gwacáu bellach wedi'u cynnwys yng nghyfrifoldebau sifft dyddiol arweinydd y sifft ar gyfer y dydd.	Swyddog Tân Bwrdd Iechyd y Brifysgol	Mawrth/Ebrill 2021 Bydd yn cael ei redeg drwy gydol mis Mawrth a mis Ebrill 2021. Bellach ar waith
Gwnaethom edrych ar y mesurau diogelwch a oedd ar waith yn y ddwy ganolfan, ac ar sawl achlysur, gwelsom fod drws allanfa	Safon Iechyd a Gofal 2.1	Rhodddwyd trefniadau ar waith yn syth i filwyr gyflenwi egwylliau'r swyddog diogelwch er mwyn sicrhau	Rheolwyr Gweithredol y	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
canolfan y Sblot wedi'i adael ar agor heb neb yn ei oruchwyllo. Gwelsom hefyd pan oedd y drws allanfa yn cael ei fonitro, nad oedd y swyddog diogelwch mewn man a oedd yn sicrhau bod y drws o fewn ei olwg bob amser. Roedd hyn yn peri risg i ddiogelwch y staff, y cleifion a'r cyflenwadau o'r brechlyn. Camau Gweithredu i'w Cymryd: Rhoi tystiolaeth i AGIC y bydd y mesurau diogelwch sydd ar waith wrth bob mynedfa ac allanfa ar gyfer pob canolfan brechu torfol yn y bwrdd iechyd yn cael eu monitro a'u diogelu.		dilyniant tra bod y contract ar gyfer staff diogelwch yn cael ei ailnegodi i gynnwys cael rhywun i gyflenwi egwylliau staff. Mae'r trefniadau diogelwch bellach wedi cael eu hadolygu yng Nghanolfan Brechu Torfol y Sblot ac mae cynllun wedi'i roi ar waith i sicrhau bod swyddogion diogelwch yn bresennol wrth y drysau blaen a chefn drwy'r amser. Mae'r cwmni diogelwch sydd dan gontract wedi cadarnhau drwy e-bost 'er bod y ganolfan ar agor ar gyfer brechiadau, bydd swyddog diogelwch wrth ddrws y cefn (yn ardal y gampfa lle rhoddir y brechiadau) drwy'r amser, a rhoddir gwybod i'r swyddog bod angen iddo wynebu tuag at i mewn i'r ystafell er mwyn monitro'r ardal frechu yn ogystal â rheoli'r allanfa'	Canolfan Brechu Torfol	

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Yn ystod ein trafodaethau â'r staff yn y ddwy ganolfan, gwnaethom nodi nad oedd rhai o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a oedd ar waith i wacáu'r safle'n ddiogel. Gwelsom fod y cynlluniau gwacáu n cael eu harddangos yn y ddwy ganolfan, ond nad oedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi'r cynllun gwacáu i ddweud ei fod wedi darllen a deall ei gynnwys. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd polisi gwacáu a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar beth i'w wneud yn achos mathau gwahanol o argyfwng. Camau Gweithredu i'w Cymryd: Rhoi tystiolaeth i AGIC i ddangos bod polisi gwacáu wedi'i gyflwyno ym mhob canolfan brechu torfol yn y bwrdd iechyd, gan gynnwys tystiolaeth bod ymwybyddiaeth y staff o'r gweithdrefnau priodol i'w dilyn pe bai argyfwng yn cael ei monitro'n barhaus.	Safon Iechyd a Gofal 2.1 / 3.2	Bydd sesiynau ymwybyddiaeth tân ar gyfer y staff yn cael eu cynnal ym mis Mawrth a mis Ebrill 2021. Bydd y rhain yn cynnwys gweithdrefnau gwacáu. Caiff diogelwch tân ei gynnwys yn sesiwn sefydlu pob aelod o'r staff yn y Canolfannau Brechu Torfol. Mae hefyd yn ofyniad gorfodol blynyddol i bob aelod o staff Bwrdd Iechyd y Brifysgol. Mae Swyddog Tân Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn fodlon ar y cynlluniau gwacáu mewn tân sydd ar gael ar y safle ac mae'n darparu sesiynau ymwybyddiaeth tân.	Swyddog Tân Bwrdd Iechyd y Brifysgol	Mawrth/Ebrill 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw Tracey Meredith

(priflythrennau):

Rôl: Arweinydd y Rhaglen Frechu

Dyddiad: 12 Mawrth 2021

Atodiad C – Cynllun gwella

Canolfannau: Canolfannau Brechu Torfol y Sblot a Holm View

Dyddiad arolygu: 01 – 02 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Os nad yw'r claf yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn newis iaith y claf os gofynnir amdani.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Bydd Arweinwyr Canolfannau Brechu Torfol Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gaffael taflenni mewn sawl iaith pan fyddant ar gael, i'w darparu ym mhob canolfan frechu. Bydd y canolfannau brechu torfol yn gallu defnyddio gwasanaethau iaith a chyfieithu Bwrdd Iechyd y Brifysgol i gael cyfieithiad dros y ffôn/iPad ac yn bersonol lle y bo angen a lle y caiff hyn ei nodi.	Uwch-nyrs/Cydgysylltwyr Imiwneiddio	Gorffennaf 2021 Bellach ar waith
Darparu gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa o'r polisi gwisg a bod cydymffurfiaeth yn cael ei monitro drwy archwiliadau rheolaidd.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	1. Yn ystod oriau gweithredu'r gwasanaeth, bydd cydymffurfiaeth â'r polisi gwisg yn cael ei hailadrodd yn y sesiynau briffio ar ddiogelwch ar ddechrau pob sifft. 2. Bydd archwiliad 'Ward Berffaith' wedi'i addasu'n cael ei gynnal bob wythnos ym mhob canolfan brechu torfol gan yr Arweinydd/Goruchwylydd Clinigol. 3. Bydd yr Uwch-nyrs yn cynnal archwiliad sicrwydd misol ym mhob canolfan brechu torfol. Bydd y materion o ran cyflenwi gwisg yn cael eu huwchgyfeirio at arweinwyr y timau Caffael a rheoli fel y bo angen, er mwyn cyflymu archebion.	Uwch-nyrs/Cydgysylltwyr Imiwneiddio	Ar unwaith Wythnosol Misol
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y profion llif unffordd ar gyfer staff yn parhau i gael eu cyflwyno.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae profion llif unffordd bellach ar gael i bob aelod o staff sy'n gweithio yn y canolfannau brechu torfol. Mae hyn yn wirfoddol ac nid yw'n ofynnol.	Dirprwy Reolwr Imiwneiddio a Phrofi	Bellach ar waith

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn darllen ac yn llofnodi'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion sy'n gysylltiedig â rhoi'r brechlyn er mwyn cynnal arferion diogel ac effeithiol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	1. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion a'r Protocol wedi'i chymeradwyo gan y Tîm Gweithredol.	Arweinydd Rhaglen Iechyd y Cyhoedd/Cyfarwyddwr Fferylliaeth	Bellach ar waith
		2. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion a'r Protocol bellach ar gael ym mhob canolfan brechu torfol.	Cydgysylltwyr Imiwneiddio	Bellach ar waith
		3. Mae'r Arweinwyr Clinigol a'r goruchwylwyr sifft bellach yn cadarnhau ar bob sifft fod y staff yn ymwybodol o'r fersiwn ddiweddaraf ac wedi'i darllen.	Arweinwyr Clinigol	Bellach ar waith
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod goruchwyliaeth, hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn cael eu rhoi i'r brechwyr heb eu cofrestru er mwyn sicrhau bod y claf yn ddiogel a hyrwyddo datblygiad parhaus eu rôl.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Mae goruchwyliaeth unigolion heb eu cofrestru bellach yn cael ei chynnwys yn y sesiynau briffio dyddiol ar ddiogelwch ac mae gwaith papur ar waith i sicrhau bod unigolion Cofrestredig yn glir ynghylch pwy y byddant yn ei oruchwyllo ar bob sifft. Bydd rhaglen gyson o ddiweddariadau a hyfforddiant gloywi yn cael ei darparu i bob	Cydgysylltwyr imiwneiddio	Parhaus – adolygu ar ddiwedd mis Mai 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		grŵp o staff, gan gynnwys unigolion heb eu cofrestru.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau safonol ar gyfer y canolfannau y maent yn gweithio ynddynt, a'u bod wedi deall a darllen y cynnwys.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Bydd y gweithdrefnau safonol perthnasol ar gael ym mhob canolfan a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r amserlen archwilio wythnosol.	Uwch-nyrs/Arweinwyr Clinigol	3 Mai 2021
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithdrefnau safonol ar gyfer y ddwy ganolfan brechu torfol a sicrhau eu bod yn disgrifio'r prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer y ddwy ganolfan yn gywir.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Bydd y weithdrefn safonol gyffredinol yn cael ei hadolygu, gan nodi'r safle a'r prosesau penodol. <i>(Cafodd penderfyniad ar sail risg ei wneud gan y tîm rheoli na fyddai dogfennau ar wahân o gymorth i'r staff sy'n gweithio ar bob safle. Mae pob safle ar wahân i Ganolfan y Bae yn gweithredu yn yr un ffordd. Mae'r cynllun brechu yn newid yn aml ac mae angen cynllun hyblyg i fodloni'r newidiadau wrth gynllunio a lleoli'r staff sydd ar gael.</i>	Pennaeth Cyflawni	3 Mai 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gofynnol a phob cymhwysedd cyn dechrau yn eu rôl. Dylid cyflwyno trefniadau i fonitro hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.	7.1 Y Gweithlu	Cytunwyd ar hyfforddiant a'r broses gynefino. Mae'r tîm gweinyddol yn goruchwyllo pob aelod o'r staff yn ystod sesiynau cynefino a hyfforddiant, a dim ond ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan arweinwyr clinigol a chydgysylltwyr imiwneiddio'r canolfannau brechu torfol y caiff staff eu rhoi ar y rota. Bydd y pasbortau hyfforddiant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y cydgysylltwyr imiwneiddio a bydd cymorth targededig yn cael ei roi i'r staff hynny nad ydynt yn cyrraedd y safonau gofynnol.	Uwch-nyrs/Arweinydd Gweinyddol Cydgysylltwyr Imiwneiddio	Bellach ar waith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Tracey Meredith

Swydd: Arweinydd y Rhaglen Frechu

Dyddiad: **29 Ebrill 2021**